

# YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU

## Gerbron y Wir Anrhydeddus Farwnes Hallett

### CYFLWYNIADAU YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH CYMRU

#### AR GYFER GWRANDAWIAD RHAGARWEINIOL MODIWL 7

##### AR 27 MEHEFIN 2024

- Dyma'r cyflwyniadau ysgrifenedig ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwrandawriad rhagarweiniol ar 27 Mehefin 2024.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am ei dynodiad yn Gyfranogwr Craidd ar gyfer Modiwl 7. Mae'n ailddatgan ei hymrwymiad llwyr i'r Ymchwiliad a'i bwriad pendant i gydweithredu yn y modd llawnaf posibl, er mwyn bod y penderfyniadau a wnaeth fel ymateb i'r pandemig yn destun craffu trwyadl. Mae wrthi'n gweithio i sicrhau bod yr Ymchwiliad yn cael yr holl wybodaeth sydd arno ei hangen i'r perwyl hwn.
- Mae Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth unedig ac integredig, felly mae ehangder ei swyddogaethau sy'n berthnasol i'r materion a nodwyd i'w hystyried fel rhan o Fodiwl 7 yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno darparu tystiolaeth ynghylch yr holl faterion a nodwyd i'w hystyried fel rhan o Fodiwl 7, a rhoi mewnbwn ar y materion hynny.
- Yn dilyn yr ystyriaeth fanwl a gaiff ei rhoi gan yr Ymchwiliad, rhagwelir y bydd gwersi pwysig yn cael eu dysgu trwy archwilio'n fanwl y dull a ddilynydd ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â'r system profi, olrhain ac ynysu (a adwaenir fel Profi Olrhain Diogelu yng Nghymru).
- Roedd y rhaglen Profi Olrhain Diogelu yng Nghymru yn rhaglen bwrpasol a ddatblygwyd trwy drefniadau partneriaeth â'r byrddau iechyd lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector yng Nghymru. Roedd yn rhan dyngedfennol o'r ymateb ehangach i'r feirws, fel y'i nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru.
- Mae Modiwl 7 yn rhoi cyfle pellach i'r Ymchwiliad edrych ar sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud gan bob un o'r pedair gwlad, boed hynny ar sail y pedair

gwlad ynteu ar wahân. Er bod pwys mawr yn cael ei roi ar gynnal dull pedair gwlad yn ystod y pandemig oni bai bod rheswm da dros wyro oddi wrtho, cydnabuwyd hefyd, pan fyddai'r amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny, y gellid bod angen dull rhanbarthol neu leol. Yn achos Profi Orlhain Diogelu yng Nghymru, cynhaliwyd yr elfen brofi trwy gyfuniad o'r GIG yng Nghymru a Rhaglen Brofi Genedlaethol y DU, a oedd yn cynnwys Labordai Goleudy y DU ac a oedd yn bartneriaeth dan arweiniad Llywodraeth y DU. Cafodd y gwaith o olrhain cysylltiadau ei gydlyn yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, ac yn rhanbarthol gan y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol. Roedd elfen 'diogelu' y strategaeth Profi Orlhain Diogelu yng Nghymru yn darparu'r cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol i'r rheini yr oedd angen iddynt hunanynysu. Yn gyffredinol, yr awdurdodau lleol yng Nghymru oedd yn cynnal y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig i'r rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed, yn ogystal ag i eraill y nodwyd ac yr aseswyd bod arnynt angen cymorth. Roedd hyn yn golygu bod angen dull gweithredu Cymreig, ac weithiau ystyriwyd bod dull gweithredu ar lefel ranbarthol neu leol yng Nghymru yn briodol. Trwy gymharu gwahanol ddulliau a ddilynwyd mewn ardaloedd ar draws y DU wrth ymdrin â materion cyffredin, a'u gwrthgyferbynnu â'i gilydd, y gobaihw yw y bydd gwersi gwerthfawr yn cael eu dysgu er mwyn sicrhau parodrwydd ar gyfer heriau iechyd y cyhoedd eraill yn y dyfodol.

7. Rydym yn ddiolchgar i'r Cyfreithiwr i'r Ymchwiliad ac i'r Cwnsler i'r Ymchwiliad am eu nodiadau a gafodd eu cylchredeg cyn y gwrandawriad rhagarweiniol. Rydym yn nodi o'r nodyn gan y Cwnsler i'r Ymchwiliad fod y cwmpas a'r llwybrau ymholi allweddol a nodwyd yn rhai dros dro, a hynny o reidrwydd felly, ar hyn o bryd.
8. Wrth i'r Ymchwiliad symud ymlaen i'w seithfed modiwl, mae'n bwysig amlygu pwysigrwydd parhaus yr Ymarfer Gwrandaw ("Every Story Matters") a Choffáu. Dylai deall yr anawsterau a ddioddefwyd gan bobl o wahanol gymunedau a chefnidiroedd a'r effaith a gafodd y system profi, olrhain ac ynysu arnynt ar draws y pedair gwlad fod yn rhan ganolog o waith yr Ymchwiliad wrth inni ymdrechu i ddysgu gwersi o'r ffordd yr aed i'r afael â'r pandemig. Mae'r cwmpas ar gyfer Modiwl 7 a'r llwybrau ymholi allweddol a nodwyd yn nodyn y Cwnsler i'r Ymchwiliad hefyd yn codi materion pwysig sydd o bwys pellgyrhaeddol i'r Llywodraethau, gan gynnwys hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, y negeseuon ar gyfer y cyhoedd a gorfodi.
9. Croesewir paragraff 41 o nodyn y Cwnsler i'r Ymchwiliad ar y meysydd ymchwil ansoddol wedi'u targedu arfaethedig. Fel y mae Llywodraeth Cymru wedi egluro mewn cyflwyniadau ysgrifenedig blaenorol, mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfreithiol cyfartal yng Nghymru. Mae'r Ymchwiliad wedi cydnabod cyn hyn bwysigrwydd statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg yn yr Ymchwiliad. Wrth ystyried

barn y grwpiau arfaethedig ar gyfer yr ymchwil ansoddol ym Modiwl 7, y cyfeirir ato ym mharagraff 42 o'r nodyn, mae'n bwysig bod yr Ymchwiliad yn sicrhau bod yr effaith ar siaradwyr Cymraeg hefyd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r boblogaeth gyffredinol a bod y trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i hwyluso casglu barn y garfan hon. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn sicrhau bod gan y Llywodraeth Cymru hon, a phob Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yr wybodaeth orau bosibl i baratoi ar gyfer unrhyw heriau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol, ac i ymateb iddynt.

**IAN ROGERS CB**

**Siambrau Monckton**

**Dyddiedig 9 Mehefin 2024**